

Bwrdd Cymwysterau Cymru

Cofnodion cyfarfod Bwrdd Cymwysterau Cymru a gynhaliwyd ar 23 Medi 2021

Presennol:

Bwrdd Cymwysterau Cymru: David Jones (DBJ) (Cadeirydd), Anne-Marie Duffy (AMD) (eitemau 1 i 6 yn unig), Jayne Woods (JW), Robert Lloyd Griffiths (RLG), Philip Blaker (PB), Hannah Burch (HB), Sharron Lusher (SL), Graham Hudson (GH), Michael Griffiths (MG), Douglas Blackstock (DB) a Julie Brannan (JB).

Staff Cymwysterau Cymru: Jo Richards (JR), Alison Standfast (AS), Emyr George (EG), Cassy Taylor (CT), Leonie White (LW), Catrin Verrall (CV) (Eitem 6), Mark Pender (MP), Kerry Davis (Eitemau 7 & 8), Kerry Price (KP) (Eitemau 9 & 12), Lisa Evans (LE) (Eitemau 9 & 12) ac Osian Llywelyn (OLI) (eitem 6).

Llywodraeth Cymru: Jo Valentine (JV), Mike Keoghane (MK)

Ymddiheuriadau: David W Jones (DWJ). Roedd AMD wedi ymddiheuro am sesiwn prynhawn y cyfarfod.

1. Croeso ac Ymddiheuriadau

1.1. Croesawodd y Cadeirydd yr holl aelodau i'r cyfarfod, yn enwedig JB a oedd yn mynychu ei chyfarfod cyntaf o'r Bwrdd yn dilyn ei phenodiad yn Gyfarwyddwr Anweithredol Cymwysterau Cymru ar 1 Medi 2021.

2. Cofnodion Bwrdd CC a gynhaliwyd ar 15 Gorffennaf 2021 a'r wybodaeth ddiweddaraf am y Camau Gweithredu

- 2.1. Cymeradwyodd y Bwrdd y cofnodion fel y'u cyflwynwyd fel cofnod cywir o'r trafodaethau.
- 2.2. Nododd y Bwrdd y Log Gweithredu, a dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw gamau i'w cymryd yr oedd angen eu hystyried yn y cyfarfod hwn.

3. Adroddiad y Cadeirydd

3.1. Dywedodd y Cadeirydd ei fod ef a PB wedi mynychu cyfarfod ddydd Llun gyda Jeremy Miles, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, lle trafodwyd safonau haf 2022 ac ystyriaethau yn ymwneud â chymwysterau newydd yn y Gymraeg. Roedd hwn wedi bod yn gyfarfod cadarnhaol ac yn ddechrau da i sefydlu perthynas waith dda. Dywedwyd bod hyn yn dyst i'r gwaith da a wnaed mewn perthynas â haf 2021 a oedd yn golygu bod sail gadarn i weithio arni gyda'r Gweinidog newydd.

- 3.2. Dywedodd y Cadeirydd fod cyfarfod wedi'i gynnal yn ystod yr haf gyda Chymdeithas yr Iaith, yr oedd wedi'i fynychu ochr yn ochr ag aelod arall o'r Bwrdd a swyddogion CC. Roedd hyn er mwyn trafod y cynigion i'r Gymraeg o fewn yr ymgynghoriad Cymwys ar gyfer y Dyfodol, gyda Chymdeithas yr Iaith yn mynegi'r farn y dylid cael un cymhwyster yn unig yn y Gymraeg. Byddai'r cynnig hwn yn cael ei drafod yn ddiweddarach yn y cyfarfod o dan eitem 6.
- 3.3. Atgoffodd y Cadeirydd y Bwrdd o'r arfer o gael cyfarfodydd achlysurol ond rheolaidd heb gydweithwyr gweithredol yn bresennol, a gofynnwyd i MP drefnu cyfarfod o'r fath cyn cyfarfod nesaf y Bwrdd ym mis Tachwedd.

4. Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol

- 4.1. Tynnodd PB sylw at y ffaith mai ar Cymwys ar gyfer y Dyfodol (QFF) oedd y prif bwyslais yng ngwaith diwygio Cymwysterau Cymru ar hyn o bryd, a byddai EG yn rhoi diweddariad ar hyn yn ddiweddarach yn y cyfarfod o dan eitem 5. Mewn perthynas ag adnoddau ar gyfer QFF, atgoffodd PB aelodau'r Bwrdd o'r canlynol, sef pan sefydlwyd y sefydliad roedd penderfyniad wedi'i wneud i lunio swydd ddisgrifiadau generig i alluogi unigolion i symud o gwmpas y sefydliad i gael profiad mewn gwahanol feysydd, a hefyd i alluogi defnyddio adnoddau'n hyblyg wrth i flaenoriaethau newid. Hyd yn hyn roedd hon wedi bod yn broses a arweiniwyd gan y cyflogeion i raddau helaeth, ond roedd QFF bellach yn flaenoriaeth yr oedd angen adnoddau ar ei chyfer, ac roedd staff yn cael eu hanfon i weithio ar QFF o ganlyniad. Roedd yr isadran Rheoleiddio felly wedi colli rhai staff i'r QFF, a thynnodd PB sylw at y ffaith bod elfen o risg yn cael ei derbyn o ganlyniad i hyn, yn enwedig gyda pheth o'r gwaith rheoleiddio amrywiol a arweinir gan alw fel ymdrin â chwynion. Teimlwyd, fodd bynnag, fod hwn yn ddull gweithredu rhesymol ar hyn o bryd yn seiliedig ar lefelau blaenorol o waith yn y maes hwn. Dywedodd aelodau'r Bwrdd y byddai angen i'r risg hon gael ei hadolygu gan y Pwyllgor Adnoddau a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, a nodwyd y byddai'r ddau bwyllgor yn ystyried effaith QFF yn eu cyfarfodydd nesaf.
- 4.2. Dywedodd PB fod y Bwrdd y llynedd wedi cymeradwyo tair swydd ychwanegol ar gyfer gwaith yn ymwneud â QFF, a bod dwy ohonynt wedi'u llenwi ar y pryd. Roedd y drydedd swydd bellach i'w defnyddio i benodi Uwch Reolwr Cymwysterau i ddarparu adnoddau ychwanegol yn y maes hwn. Byddai rheolwr prosiect hefyd yn cael ei benodi ar gontract cyfnod penodol am o leiaf 6 mis wrth i QFF ddechrau ar ei gyfnod ymgysylltu mwyaf cymhleth i ddarparu adnoddau rheoli ychwanegol yn y maes hwn..
- 4.3. Dywedodd PB fod angen diweddarau'r cynllun gweithredol i adlewyrchu'r newidiadau sy'n codi o QFF, a byddai papur all-bwyllgor yn cael ei at aelodau'r Bwrdd ar ôl y cyfarfod i gymeradwyo'r diwygiadau hyn.
- 4.4. Cadarnhawyd y byddai datganiad ystadegau yn edrych ar amrywiadau mewn canlyniadau ar gyfer haf 2021 yn cael ei gyhoeddi'r diwrnod canlynol, ac roedd CC yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru mewn perthynas â

hyn. Roedd yr adroddiad cydraddoldeb o haf 2021 i fod i gael ei gyhoeddi ganol mis Hydref.

- 4.5 Darparodd PB ddiweddariad ar staff yn dychwelyd i'r swyddfa a dywedodd fod y swyddfa ar agor am dri diwrnod yr wythnos ar hyn o bryd. Roedd rhai aelodau o staff yn gyndyn o dychwelyd i'r swyddfa gan ei bod wedi dod yn amlwg dros y 18 mis diwethaf eu bod yn gallu cyflawni eu dyletswyddau o gartref yn effeithiol, ac roedd manteision amlwg o ran peidio â gorfod cymudo i'r swyddfa ac oddi yno. Fodd bynnag, roedd yn pryderu bod gweithio o gartref yn erydu cyfalaf cymdeithasol a diwylliannol y sefydliad, lle roedd diffyg ymgysylltu ag aelodau o staff y tu allan i'w maes gwaith uniongyrchol oherwydd nad oedd pobl yn rhyngweithio yn y swyddfa. Er nad oedd unrhyw fwriad i fynnu bod staff yn dychwelyd i'r swyddfa fel rhan o weithio hybrid ar hyn o bryd, roedd mwy o ymdrech yn cael ei wneud i annog staff i dreulio peth amser yn y swyddfa.
- 4.6 Dywedodd aelod o'r Bwrdd fod rhai sefydliadau corfforaethol wedi nodi y byddent yn disgwyl i bobl fod yn y swyddfa o leiaf 2 ddiwrnod yr wythnos o fis Ionawr. Awgrymwyd hefyd pe bai pobl yn cael eu gofyn i ddod i mewn i'r swyddfa bod angen meddwl beth y gallent ei wneud i hyrwyddo diwylliant y sefydliad a chael tasg / cyfarfodydd penodol i hyrwyddo hyn tra yn y swyddfa. Roedd aelodau'r Bwrdd hefyd yn croesawu'r dull sensitif ac ymgynghorol a ddefnyddir gan CC mewn perthynas â'r mater hwn. Cadarnhaodd PB y byddai unrhyw fesurau yn unol â'r canllawiau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru.

Crynodeb o Benderfyniadau/Camau Gweithredu:

MP i anfon y cynllun gweithredol diwygiedig ar ffurf all-bwyllgor i'w gymeradwyo.

5. Trosolwg o gam nesaf Cymwys ar gyfer y Dyfodol - gan gynnwys y cynnig 14-16 ehangach

- 5.1 Rhoddodd EG drosolwg o gam nesaf Cymwys ar gyfer y Dyfodol (QFF). Pwysleisiodd mai ffocws y cyfnod hwn oedd cydweithio â chymaint o randdeiliaid â phosibl i ymgysylltu'n helaeth ar ddau brif faes gwaith, sef ail-ddychmygu TGAU ac ail-lunio'r cymwysterau ehangach a gynigir i bob dysgwr.
- 5.2 O ran ail-ddychmygu cymwysterau TGAU, byddai ymagwedd gyd-adeiladol yn cael ei mabwysiadu i archwilio dulliau arloesol o ymdrin â'u cynnwys a'u dulliau asesu. Byddai rhanddeiliaid yn cymryd rhan uniongyrchol ar bob lefel o'r gwaith i ailfeddwl sut y gellid dylunio cymwysterau TGAU newydd i helpu dysgwyr i wireddu dibenion y Cwricwlwm i Gymru; bod mor ddeniadol â phosibl i ddysgwyr a chefnogi eu hiechyd meddwl a'u llesiant; rhoi mwy o hyblygrwydd i ysgolion adlewyrchu eu cwricwlwm lleol a chynnig profiad addysgu a dysgu cadarnhaol i'w dysgwyr; a gwneud gwell defnydd o dechnolegau digidol.
- 5.3 O ran ail-lunio'r cynnig ar gyfer cymwysterau 14-16 ehangach sydd ar gael i ddysgwyr 14 i 16 oed, roedd hyn yn cael ei ystyried o lefel mynediad i fyny ac ar draws pob pwnc. Heb ragfarnu canlyniad y gwaith hwn, disgwyliad y byddai'r

cynnig cyffredinol yn debygol o gynnwys cymysgedd o gymwysterau presennol a rhai newydd. Byddai rhai yn gymwysterau 'Gwneud i Gymru', a rhai yn gymwysterau DU gyfan. Roedd hefyd yn bosibl, wrth ail-lunio'r cynnig ehangach, y gellid nodi nifer fach o bynciau y dylid eu cynnig fel TGAU Gwneud i Gymru. Nid oedd hyn yn ymwneud â system dwy haen, ond yn hytrach yn cytuno ar sut olwg ddylai fod ar gynnig cynhwysol, cydlynol a dwyieithog.

- 5.4 Amlinellodd EG yr amserlen ar gyfer y cam hwn o QFF, a chydabuwyd bod hyn yn heriol, yn enwedig yng ngoleuni'r aflonyddwch a achosir gan y pandemig a gallu rhanddeiliaid i ymgysylltu'n effeithiol â'r broses ar hyn o bryd.
- 5.5 O ran blaenoriaethau dylunio, dywedodd EG fod set o bapurau gwybodaeth yn cael eu paratoi i ddarparu set gyffredin o wybodaeth gefndir a deunyddiau ysgogi i randdeiliaid.
- 5.6 Amlinellwyd yr adnoddau sylweddol sydd eu hangen i weithredu'r cam hwn o QFF yn effeithiol i'r Bwrdd, a nodwyd yr her yr oedd hyn yn ei gynrychioli i'r sefydliad. Roedd y risgiau a'r heriau yn cynnwys cyllideb a staffio; capasiti rhanddeiliaid; dealltwriaeth a disgygliadau; a chanfyddiadau, derbyniad, a hyder y cyhoedd.
- 5.7 Amlinellodd EG gamau QFF yn y dyfodol, a nodwyd y byddai'r Bwrdd yn trafod agweddau allweddol o'r gwaith yn ystod y flwyddyn i ddod.
- 5.8 Diolchwyd i EG am y diweddariad cynhwysfawr a dywedodd fod hwn yn ddarn cyffrous a heriol o waith a fyddai'n ffocws i waith y Bwrdd am nifer o flynyddoedd.

Crynodeb o Benderfyniadau/Camau Gweithredu:

Nododd y Bwrdd y diweddariad a ddarparwyd ar gam nesaf QFF.

6. Cymwys ar Gyfer y Dyfodol: Y Dewis Cywir i Gymru – Argymhellion Pellach

- 6.1. Cyflwynodd EG a CV bapur QWB49.6 a oedd yn cyflwyno argymhellion pellach mewn perthynas ag ymgynghoriad *Cymwys ar gyfer y Dyfodol: Y Dewis Cywir i Gymru* i'w hystyried gan y Bwrdd.
- 6.2. Atgoffodd EG aelodau'r Bwrdd fod penderfyniad wedi'i wneud yn y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 15 Gorffennaf 2021 ar 17 o'r 23 cynnig a gynhwyswyd yn yr ymgynghoriad, a bod gofyn yn awr i'r Bwrdd ystyried argymhellion mewn perthynas â'r 6 chynnig arall.
- 6.3 Cyn y drafodaeth ar y cynigion unigol, cafwyd trafodaeth ar faint cymwysterau a sut y gallai hyn ddylanwadu ar ganfyddiadau o'r cymwysterau newydd. Atebodd EG ei bod yn bwysig fel rhan o'r ymgynghoriad i roi syniad o faint i helpu pobl i gysyniadoli'r cynigion. Fodd bynnag, teimlai nad oedd maint TGAU ynddo'i hun yn cael ei ddefnyddio fel ffactor gan ddysgwyr na chyflogwyr. Dywedodd aelod o'r Bwrdd fod risg o ddrysu maint gyda deilliannau, a nododd fod gwahaniaeth mawr

mewn addysg uwch rhwng graddau gwyddoniaeth a dyniaethau o ran oriau cyswllt, ond nid oedd hyn yn effeithio ar y gwerth a roddir ar y graddau hyn.

- 6.4 Yna ystyriodd y Bwrdd bob cynnig fel y nodwyd yn y papur yn ei dro.

leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

- 6.5 Cynnig 1 - Creu TGAU Saesneg iaith a llenyddiaeth gyfun newydd a TGAU Cymraeg iaith a llenyddiaeth gyfun newydd i ddisodli'r cymwysterau TGAU presennol sy'n cael eu cynnig ar wahân. Byddai'r cymwysterau TGAU cyfun newydd tua'r un maint â 1½ TGAU.

Argymhelliad: Bwrw ymlaen â'r cynnig gwreiddiol i greu TGAU Saesneg iaith a llenyddiaeth integredig newydd yn lle'r cymwysterau TGAU ar wahân presennol; gohirio'r cynnig i greu TGAU Cymraeg iaith a llenyddiaeth integredig newydd yn lle'r cymwysterau TGAU ar wahân presennol, a chwblhau penderfyniad ym mis Ionawr 2022 unwaith y bydd safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Gymraeg yn glir (gweler 6.6 isod).

- 6.6 Cynnig 2 - Cael gwared â TGAU Cymraeg Ail iaith a chreu TGAU newydd, mwy o faint wedi'i gynllunio ar gyfer dysgwyr mewn cyd-destunau cyfrwng Saesneg sy'n adlewyrchu disgwyliadau Canllawiau'r Cwricwlwm. Byddai'r cymhwyster newydd tua'r un maint â 1½ TGAU. Cynnig 3 – Creu cyfres o gymwysterau bach sgiliau iaith Cymraeg y gellir eu cymryd yn ychwanegol at TGAU i gefnogi dilyniant ar hyd y continwmm Cymraeg.

Argymhelliad: Gohirio gwneud penderfyniad ar gynigion 2 a 3 tra'n aros am fwy o eglurder gan Lywodraeth Cymru ar ei pholisi mewn perthynas â'r Gymraeg. Byddai'r gohiriad hwn am gyfnod byr, gyda'r bwriad o gadarnhau penderfyniad ym mis Ionawr 2022.

- 6.7 Gofynnodd aelod o'r Bwrdd a oedd unrhyw eglurhad gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas ag un cymhwyster Cymraeg. Dywedwyd nad oedd unrhyw safbwynt polisi pendant wedi dod i law felly roedd angen mwy o eglurder gan Lywodraeth Cymru o ran ei bwriadau cyn y gellir gwneud penderfyniad.
- 6.8 Cadarnhaodd EG yn dilyn trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru ei fod yn hyderus y byddai polisi yn dod i law erbyn diwedd y flwyddyn a bod y risg o lithriad yn isel felly.
- 6.9 Yn dilyn trafodaeth bellach, cymeradwyodd y Bwrdd y tri argymhelliad mewn perthynas ag iaith, llythrennedd a chyfathrebu fel yr amlinellwyd uchod.

Gwyddoniaeth a Thechnoleg

- 6.10 Cynnig 3 - Creu cymhwyster TGAU Gwyddoniaeth newydd i ddisodli'r gyfres bresennol o gymwysterau TGAU gwyddoniaeth. Mae'r cymhwyster hwn yn debygol o fod tua maint dau gymhwyster TGAU.

Argymhelliad - bwrw ymlaen â'r cynnig gwreiddiol a chreu cymhwyster TGAU Gwyddoniaeth newydd i ddisodli'r set bresennol o gymwysterau TGAU gwyddoniaeth.

- 6.11 Cynnig 4 - Creu cyfres o gymwysterau bach gwyddoniaeth y gellir eu cymryd yn ychwanegol at y cymhwyster Gwyddoniaeth TGAU newydd arfaethedig. Mae'r unedau hyn yn debygol o fod yn gyfwerth o ran maint â naill ai un rhan o dair neu ddwy ran o dair cymhwyster TGAU.
- Argymhelliad** - Gohirio'r cynnig gwreiddiol.
- 6.12 Yn dilyn ymholiad, cadarnhawyd y byddai'r cymhwyster TGAU Gwyddoniaeth newydd arfaethedig yn cael ei labelu fel dyfarniad dwbl.
- 6.13 Gofynnwyd, o ystyried y pwyslais a roddir ar bynciau STEM gan Lywodraeth Cymru, a oedd cydnabyddiaeth bod ystod y pynciau gwyddoniaeth sydd ar gael yn cael ei lleihau. Dywedodd y Cadeirydd, o edrych ar y cynnig cyfan, y byddai mwy o gymwysterau gwyddoniaeth gymhwysol ar gael, a oedd yn golygu bod pynciau STEM yn dal i gael eu gwasanaethu'n dda o dan y cynigion a'u cysylltu â sectorau allweddol o fewn economi STEM Cymru. Gofynnwyd hefyd a fyddai dod â'r tair gwyddor mewn un cymhwyster yn galluogi dysgwyr i gwmpasu popeth sy'n angenrheidiol i symud ymlaen yn llwyddiannus i Safon Uwch mewn pynciau gwyddonol penodol. Mewn ymateb, cadarnhawyd bod llawer o ddysgwyr eisoes yn symud ymlaen i Safon Uwch o'r TGAU dyfarniad dwbl presennol, felly byddai'n bosibl dylunio'r cymhwyster i sicrhau bod gan ddysgwyr y wybodaeth angenrheidiol i symud ymlaen i Safon Uwch.
- 6.14 Llongyfarchwyd y tîm ar gael cefnogaeth y cymdeithasau dysgedig i'r cynigion hyn, a oedd yn arbennig o bwysig i hygyrdd cyhoeddus y cymhwyster newydd. Dywedodd aelod o'r Bwrdd fod y dull integredig a awgrymwyd wedi'i weld o'r blaen yn ei brofiad ef a'i fod wedi darparu manteision mawr i ddealltwriaeth gysyniadol y dysgwyr o wyddoniaeth.
- 6.15 Cytunwyd y dylid gohirio cynnig 4 a'i archwilio ymhellach gyda rhanddeiliaid dros y flwyddyn i ddod fel rhan o'r gwaith i ail-lunio'r cynnig ehangach o gymwysterau 14–16.
- 6.16 Yn dilyn trafodaeth bellach, cymeradwyodd y Bwrdd y cynnig i greu cymhwyster TGAU Gwyddoniaeth newydd i gymryd lle'r set bresennol o gymwysterau TGAU gwyddoniaeth, ac mewn perthynas â chynnig 4 y dylid gohirio hyn fel yr amlinellwyd uchod.

Mathemateg a Rhifedd

- 6.17 Cynnig 1 – Creu cymhwyster Mathemateg a Rhifedd TGAU cyfun newydd i ddisodli'r ddau TGAU presennol mewn Mathemateg a Mathemateg-Rhifedd. Byddai'r cymhwyster TGAU cyfun newydd tua'r un maint â 1½ TGAU.

Argymhelliad: Bwrw ymlaen â'r cynnig gwreiddiol i greu cymhwyster TGAU Mathemateg a Rhifedd cyfun newydd i ddisodli'r ddau TGAU presennol mewn Mathemateg a Mathemateg-Rhifedd.

Noder: Datganodd MG ddiddordeb mewn perthynas â'r drafodaeth ar y cynnig Mathemateg uchod, oherwydd ei ran yn arwain y Grŵp Maes Dysgu a Phrofiad Mathemateg a Rhifedd ar gyfer Llywodraeth Cymru a chadeirio Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn 2015 a oedd yn edrych ar ba gamau y gellid eu cymryd i wella canlyniadau mathemateg yng Nghymru.

- 6.18 Adroddwyd ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd bod trafodaethau pellach wedi'u cynnal gyda rhanddeiliaid allweddol i ddeall eu pryderon yn well, ond roedd swyddogion yn parhau i fod o'r farn mai'r argymhelliad arfaethedig oedd y model cywir i'w ddilyn ac y byddai'n chwarae rhan bwysig wrth gyflawni nodau'r cwricwlwm newydd.
- 6.19 Dywedodd aelod o'r Bwrdd ei fod yn dal yn siomedig y byddai'r cymhwyster hwn yn cael ei ostwng i gyfwerth ag 1.5 TGAU ac roedd yn pryderu sut y byddai ysgolion yn dehongli hyn. Fodd bynnag, roedd yn cydnabod y gallai fod rhywfaint o resymoli testunau o fewn y cymhwyster newydd a chydabu'r rhesymeg dros y newid arfaethedig.
- 6.21 Ar ôl trafodaeth bellach cymeradwyodd y Bwrdd y cynnig i greu cymhwyster TGAU Mathemateg a Rhifedd cyfun newydd i ddisodli'r ddau TGAU presennol mewn Mathemateg a Mathemateg-Rhifedd.

Crynodeb o Benderfyniadau/Camau Gweithredu:

Cymeradwyodd y Bwrdd y canlynol:

- a) Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu cynnig 1: Bwrw ymlaen â'r cynnig gwreiddiol i greu TGAU Saesneg iaith a llenyddiaeth integredig newydd yn lle'r cymwysterau TGAU ar wahân presennol; gohirio'r cynnig i greu TGAU Cymraeg iaith a llenyddiaeth integredig newydd yn lle'r cymwysterau TGAU ar wahân presennol, a chwblhau penderfyniad ym mis Ionawr 2022 unwaith y bydd safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Gymraeg yn glir.
- b) Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu cynnigion 2 a 3: Gohirio gwneud penderfyniad ar gynigion 2 a 3 tra'n aros am fwy o eglurder gan Lywodraeth Cymru ar ei pholisi mewn perthynas â'r Gymraeg, gyda'r bwriad o gadarnhau penderfyniad ym mis Ionawr 2022.
- c) Gwyddoniaeth a Thechnoleg cynnig 3: Bwrw ymlaen â'r cynnig gwreiddiol a chreu cymhwyster TGAU Gwyddoniaeth newydd i ddisodli'r set bresennol o gymwysterau TGAU gwyddoniaeth.

- d) Gwyddoniaeth a Thechnoleg cynnig 4: Gohirio penderfyniad ac archwilio ymhellach gyda rhanddeiliaid dros y flwyddyn i ddod fel rhan o'r gwaith i ail-lunio'r cynnig ehangach o gymwysterau 14-16.
- e) Mathemateg a Rhifedd cynnig 1: Bwrw ymlaen â'r cynnig gwreiddiol i greu cymhwyster TGAU Mathemateg a Rhifedd cyfun newydd i ddisodli'r ddau TGAU presennol mewn Mathemateg a Mathemateg-Rhifedd.

7. Opsiynau Wrth Gefn ar gyfer dyfarnu yn 2022

- 7.1. Cyflwynodd JR a KD bapur QWB49.7 a oedd yn rhoi gwybodaeth i'r Bwrdd am y dull wrth gefn arfaethedig ar gyfer asesu TGAU, UG a Safon Uwch yn haf 2022 pe na bai arholiadau'n gallu mynd yn eu blaenau.
- 7.2. Dywedwyd y bu ymgysylltu â rhanddeiliaid dros yr ychydig wythnosau diwethaf ar y dull wrth gefn arfaethedig i brofi'r cynigion.
- 7.3. Y disgwyl oedd y byddai cyfres arholiadau lawn yn haf 2022, ac mai'r sbardun priodol ar gyfer gweithredu trefniadau wrth gefn fyddai penderfyniad gan Lywodraeth Cymru i ganslo arholiadau yn haf 2022. Fodd bynnag, roedd yn briodol cael trefniadau wrth gefn yn eu lle fel y gellir eu rhannu gyda chanolfannau cyn gynted â phosibl ac i sicrhau bod canolfannau a dysgwyr yn barod ar gyfer trefniadau o'r fath pe bai angen.
- 7.4. Teimlwyd mai'r opsiwn gorau fyddai dilyn dull a bennir gan y ganolfan fel yn haf 2021, ond ceisio gwella'r broses hon lle bo modd. Bu llawer o amrywiaeth yn yr asesiadau a ddefnyddiwyd yn 2021, a nodwyd y gwelliannau canlynol i helpu i reoli hyn yn 2022:
- Lleihad yn nifer yr asesiadau a ddefnyddir i osgoi gor-asesu ar ddiwedd y cwrs, gydag asesiadau yn digwydd ar draws y flwyddyn ysgol
 - Cyn belled ag y bo modd, dylai asesiadau fod yn rhan o'r rhaglenni addysgu a dysgu arferol yn hytrach nag asesiadau ychwanegol
 - Cryfhau rôl CBAC yn y broses sicrhau ansawdd allanol
- 7.5. Dywedwyd bod rhanddeiliaid yn gyffredinol gefnogol i'r cynigion.
- 7.6. Pwysleisiwyd i'r Bwrdd yr angen i ganolfannau gasglu tystiolaeth asesu trwy gydol y flwyddyn, oherwydd mae'n bosibl y gallai penderfyniad i beidio â chynnal arholiadau gael ei wneud yn hwyr yn y flwyddyn ysgol.
- 7.7. Cytunodd aelodau'r Bwrdd â'r cynigion. Yn ystod y drafodaeth codwyd y mater posibl o ysgolion yn cau yn agos at neu yn ystod y gyfres arholiadau, ac adroddwyd bod trefniadau cyn-Covid eisoes yn gallu ymdrin ag asesiadau a fethwyd cyn belled â bod rhywfaint o asesu wedi digwydd.

- 7.8 Cadarnhawyd y byddai trefniadau'n cael eu cyfleu cyn gynted â phosibl a nodwyd y byddai ymdrechion i gydgyssylltu'r broses o gyfathrebu penderfyniadau â rheoleiddwyr eraill y DU fel bod neges gyson.

Crynodeb o Benderfyniadau/Camau Gweithredu:

- a) Cymeradwyodd y Bwrdd y trefniadau wrth gefn ar gyfer haf 2022 fel dull gwell a bennir gan yn y ganolfan, fel y nodir yn adrannau 6 a 7 o'r adroddiad.
- b) Cytunodd y Bwrdd mai'r meini prawf ar gyfer gweithredu trefniadau wrth gefn fyddai penderfyniad gan Lywodraeth Cymru i ganslo arholiadau haf 2022 a Chyfarwyddyd i Cymwysterau Cymru.

8. Graddio cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch yn Haf 2022

- 8.1. Cyflwynodd JR a KD bapur QWB49.8 a oedd yn rhoi'r dull gweithredu arfaethedig i'r Bwrdd ar gyfer graddio cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch yn haf 2022.
- 8.2 Atgoffwyd y Bwrdd y byddai addasiadau yn haf 2022 yn golygu y byddai'n anodd gwneud cymariaethau perfformiad uniongyrchol â blynyddoedd blaenorol.
- 8.3 Roedd y pedwar opsiwn a ystyriwyd ac y teimlwyd eu bod yn ymarferol fel a ganlyn:
- Opsiwn 1: Mae canlyniadau cenedlaethol yn debyg i ganlyniadau 2019;
 - Opsiwn 2: Mae canlyniadau cenedlaethol yn adlewyrchu 2019 gyda phroses o ystyriaeth arbennig systematig i ystyried yr aflonyddwch a brofir gan ddysgwyr;
 - Opsiwn 3: Mae'r canlyniadau ar bwynt canol bras rhwng canlyniadau 2019 a 2021 (gyda'r bwriad o gamu yn ôl yn raddol i ganlyniadau 2019); ac
 - Opsiwn 4: Mae'r canlyniadau'n adlewyrchu'n fras ganlyniadau 2020, canlyniadau 2021 neu rywle yn y canol (gyda'r bwriad o gamu yn ôl yn raddol i ganlyniadau 2019).
- 8.4 Ystyriwyd mai Opsiwn 2 oedd y dewis a ffeirir, ond nodwyd bod Ofqual yn dal i ystyried y mater hwn ac yn debygol o benderfynu ar opsiwn 3 fel yr amlinellwyd uchod. Os felly, byddai angen i CC sicrhau nad oedd y dull a fabwysiadwyd yn rhoi dysgwyr Cymru o dan anfantais o gymharu â'u cyfoedion mewn mannau eraill. Pe bai Ofqual yn penderfynu dilyn dull y tu allan i opsiynau 2 neu 3 yna byddai angen i Fwrdd Cymwysterau Cymru ailystyried ei safbwynt ac ailedrych ar y mater hwn.
- 8.5 Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd mynegodd aelodau'r Bwrdd gefnogaeth i opsiwn 2 fel yr amlinellwyd uchod. Rhoddwyd eglurhad ar y gwahaniaethau rhwng opsiynau 2 a 3, gyda graddau'n debygol o fod yn uwch pe bai opsiwn 3 yn cael ei ddilyn.
- 8.6 Nodwyd bod penderfyniad eisoes wedi'i wneud ac wedi'i gyfleu na fyddai graddau UG a ddyfarnwyd yn 2020 a 2021 yn cyfrannu at raddau Safon Uwch. Roedd y penderfyniad hwn yn parhau i gael ei herio mewn rhai mannau ac roedd wedi'i godi gan y Grŵp Cynghori Dysgwyr fel mater. Nodwyd bod amrywiaeth sylweddol

wedi bod mewn canlyniadau UG yn 2021, yn enwedig rhwng colegau AB a chweched dosbarth ysgolion ac ar sail rhywedd. Roedd CBAC yn pryderu pe bai penderfyniad yn cael ei wneud i wrthdroi'r penderfyniad hwn yn hwyr y gallai achosi risg o ran eu gallu i brosesu canlyniadau.

- 8.7 Cysylltwyd â rhanddeiliaid am eu barn ac nid oedd llawer o gefnogaeth i newid y penderfyniad hwn. Roedd y Bwrdd felly yn fodlon cefnogi'r sefyllfa bresennol.

Crynodeb o Benderfyniadau/Camau Gweithredu:

- a) Cytunodd y Bwrdd, mewn perthynas â'r dull graddio arfaethedig yn 2022, mai opsiwn 2 oedd yr opsiwn a ffeirir, ond na ddylai dysgwyr yng Nghymru fod dan anfantais o gymharu â'u cyfoedion mewn mannau eraill. Os felly, byddai opsiwn 3 yn cael ei gymeradwyo fel un derbyniol pe bai Ofqual yn gwneud y penderfyniad hwn. Cytunodd y Bwrdd i gyfarfod eto os oedd y penderfyniad a wnaed gan Ofqual yn wahanol i opsiwn 2 neu 3 neu pe bai Llywodraeth Cymru yn cyflwyno safbwynt polisi amgen.
- b) Cytunodd y Bwrdd y dylid cynnal y sefyllfa bresennol o ran cymwysterau UG sef nad ydynt yn cyfrannu at raddau Safon Uwch yn haf 2022.

9. C1 2021/22 Cynllun Gweithredol ac Adroddiad Cyllideb

- 9.1 Cyflwynodd LE a KP bapurau QWB49.9a a QWB49.9b.
- 9.2 Cafodd adroddiad y cynllun gweithredol, a oedd yn rhoi diweddariadau hyd at ddiwedd mis Awst 2021, ei grynhoi i'r Bwrdd. Roedd y llwyth gwaith a'r adnoddau yn cael eu hadolygu'n barhaus gan SLG. Roedd y blaenoriaethau yn y cynllun gweithredol hefyd wedi'u hadolygu a byddai diwygiadau arfaethedig all-bwyllgor yn cael eu dosbarthu i'r Bwrdd i'w cymeradwyo.
- 9.3 Mewn perthynas â'r adroddiad cyllideb, nodwyd y rhagwelir gwariant cyllideb llawn. Roedd yn debygol y byddai galw cynyddol am gyllid ar gyfer QFF, ac roedd adolygiad cynnar o'r gyllideb wedi arwain at leihad mewn gofynion cyllid craidd, gan gydbwysu'r gwariant cynyddol ar gyfer QFF. Roedd yn debygol y byddai rhywfaint o symud yn parhau yn y maes hwn ac roedd gwaith yn parhau i gadarnhau gwariant ar QFF a faint y gallai arbedion mewn cyllid craidd gyfrannu at hynny.
- 9.4 Rhoddwyd diweddariad hefyd ar weithrediad y system gyllid newydd a nodwyd bod materion yn parhau mewn perthynas â hyn. Y gobaith oedd y byddai'r sefyllfa'n gliriach erbyn yr wythnos ganlynol, a bryd hynny byddai'r cynllun prosiect yn cael ei adolygu. Byddai'r Bwrdd yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y mater hwn.

10. Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2020-21

- 10.1 Cyflwynodd AS bapur QWB49.10 a oedd yn darparu Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2020/21 i'w gymeradwyo gan y Bwrdd.
- 10.2 Ers i hyn gael ei drafod ddiwethaf ym mis Gorffennaf, nodwyd bod cynnwys wedi'i ychwanegu yn egluro sut roedd Cymwysterau Cymru wedi cyflawni ei ddyletswydd cydraddoldeb yn y dull o ymdrin â threfniadau dyfarnu amgen ar gyfer 2020 ac wrth gynllunio ar gyfer 2021, gan gynnwys y dull o asesu effaith.
- 10.3 Roedd adolygiad hefyd wedi'i gynnal o'r modd y cyflwynwyd data gweithwyr ac aelodau'r Bwrdd yn yr adroddiad, ac roedd hwn wedi'i ddiweddarau yn unol â'r dull a ddefnyddiwyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.
- 10.4 Nodwyd bod angen prawfddarllen yr adroddiad drafft yn derfynol cyn ei gyhoeddi, ac y byddai hyn yn cael ei wneud yn dilyn cymeradwyo'r fersiwn drafft gan y Bwrdd.
- 10.5 Croesawodd aelodau'r Bwrdd yr adroddiad a nodwyd y teimlwyd bod y ddogfen yn un ragorol. Dywedodd aelod o'r Bwrdd fod ganddi rai mân sylwadau ar rywfaint o'r derminoleg a ddefnyddiwyd, a chytunodd i anfon y rhain at AS i'w hystyried.

Crynodeb o Benderfyniadau/Camau Gweithredu:

Cymeradwyodd y Bwrdd gyhoeddi adroddiad cynnydd blynyddol drafft ar gydraddoldeb ar gyfer 2020/21 fel y'i hatodwyd yn Atodiad 2 i'r adroddiad, yn amodol ar brawfddarllen terfynol.

11. Adroddiad Blynyddol 2020/21

- 11.1 Cyflwynodd LW bapur QWB49.11 a oedd yn rhoi trosolwg o'r cynnydd mewn perthynas ag Adroddiad Blynyddol Cymwysterau Cymru 2020/21.
- 11.2 Adroddwyd bod drafft cyntaf yr Adroddiad Blynyddol wedi'i gwblhau a'i adolygu gan y Bwrdd Rheoli. Fe'i hysgrifennwyd gan ymgynghorydd sydd wedi datblygu'r naratif sefydliadol, a luniwyd i wella dealltwriaeth y cyhoedd o waith Cymwysterau Cymru. Roedd sylwadau ar y drafft cyntaf hwn yn cael sylw ar hyn o bryd a byddai drafft diwygiedig yn barod i'w ystyried yn fuan.
- 11.3 Roedd dyluniad sampl o'r Adran Cyfathrebu ac Ymgysylltu o'r adroddiad hefyd wedi'i gynhyrchu ac roedd hwn wedi'i atodi fel Atodiad 2 i'r adroddiad er mwyn i'r Bwrdd roi sylwadau arno.
- 11.4 Er mwyn i'r Adroddiad Blynyddol gael ei gwblhau mewn pryd i'w ystyried gan Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd ar ddechrau mis Rhagfyr, gofynnwyd i'r Bwrdd ddirprwyo awdurdod i gymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol i'r Prif Weithredwr a'r Cadeirydd, a gofynnir i un aelod anweithredol arall o'r Bwrdd adolygu'r ddogfen ddrafft ac argymhell unrhyw welliannau cyn ei chymeradwyo.

Crynodeb o Benderfyniadau/Camau Gweithredu:

Cymeradwydd y Bwrdd y dyluniad sampl a ddarparwyd yn yr adroddiad a chytunwyd i ddirprwyo awdurdod i gymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol i'r Prif Weithredwr a'r Cadeirydd yn unol â'r cynnig a nodir ym mharagraff 11.4 uchod.

12. Adroddiad Rheoli Risg a Chofrestr Risg Sefydliadol

- 12.1. Cyflwynodd MP bapur QWB49.12. Cadarnhaodd MP, fel rhan o'r broses adrodd ddiwygiedig, y byddai'r holl risgiau gyda sgôr gweddilliol o 12 ac uwch yn cael eu hadrodd i'r Bwrdd. Rhoddodd MP ddiweddariad hefyd ar risgiau newydd a'r rhai a oedd wedi cynyddu neu ostwng yn eu sgôr weddilliol ers yr adroddiad diwethaf.
- 12.2 Awgrymwyd y dylid rhestru'r Bwrdd yn y golofn 'Sicrwydd' ar gyfer y risgiau hyn a gafodd sgôr o 12 neu uwch, a chadarnhawyd yr awgrym hwn.

13. Diweddariadau Pwyllgorau / Cyfraddau Fesul Awr y Bwrdd

- 13.1 Nodwyd na chynhaliwyd unrhyw gyfarfodydd pwyllgor ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd.
- 13.2 Cyflwynodd AS bapur QWB49.13 a dywedodd y gofynnwyd i'r Pwyllgor Taliadau ystyried cynnig i aelodau'r Bwrdd hawlio am yr amser a dreuliant ar fusnes Cymwysterau Cymru gan ddefnyddio cyfradd fesul awr yn hytrach nag yn ôl diwrnod / hanner diwrnod. Roedd y cynnig hwn wedi codi yn ystod y pandemig, lle roedd gweithio gartref wedi arwain at gyfarfodydd o wahanol hyd nad oeddent yn ffitio i ddiwrnod neu hanner diwrnod traddodiadol. Yn ogystal, roedd mwy o eitemau'n cael eu hanfon all-bwyllgor i'w hadolygu. Roedd llawer o aelodau'r Bwrdd eisoes wedi dechrau cofnodi'r oriau a weithiwyd, yn aml yn gorfod cario oriau ymlaen i'r mis canlynol. Nid oedd hon yn broses effeithlon ac roedd risg uchel o gamgymeriadau â llaw i aelodau'r Bwrdd a staff Cymwysterau Cymru.
- 13.3 Roedd y Pwyllgor Taliadau wedi cefnogi'r cynnig a dywedwyd nad oedd gan Lywodraeth Cymru unrhyw broblem gyda CC yn dewis gweinyddu'r gyfradd ddyddiol a hysbysebair ar gyfer aelodau'r Bwrdd fesul awr.
- 13.4 Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd codwyd mater amser paratoi ar gyfer cyfarfodydd, a chadarnhaodd AS nad oedd meini prawf penodol ar gyfer hyn, ond cydnabuwyd bod angen amser darllen sylweddol ar gyfer pob cyfarfod a bod yr amser a hawliwyd ar gyfer hyn yn cael ei fonitro'n barhaus.

Crynodeb o Benderfyniadau/Camau Gweithredu:

Cymeradwydd y Bwrdd y cynnig y dylai aelodau'r Bwrdd hawlio am yr amser a dreuliwyd ar fusnes Cymwysterau Cymru gan ddefnyddio cyfradd fesul awr fel y nodir yn yr adroddiad.

14. Rhagolwg

14.1 Darparodd MP drosolwg o'r Rhagolwg a gofynnodd i'r aelodau gysylltu ag ef os oedd unrhyw eitemau yr hoffent eu hychwanegu at agendâu'r dyfodol.

15. UFA

15.1. Ni thrafodwyd unrhyw fater arall.

15.2. Diolchodd y Cadeirydd i'r holl swyddogion am gynhyrchu a chyflwyno papurau ar gyfer y cyfarfod prysur hwn.

Diwedd